Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Cylchlythyr technegol

Coetiroedd gwell i Gymru

Newyddion Grantiau a Rheoliadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Rhifyn 21 Medi 2009

Cynnwys

Diweddariad am Gyllid CGG
Cynlluniau Coedwig Hirdymor
Cyfrifwr costau Grantiau Gwella Coetiroedd
Coetiroedd ar gyfer Dysgu
Sioe Frenhinol Cymru
Ceisiadau am reoli gwiwerod
Dilysu cyfeirnod cwsmer i ffermwyr
Newyddion diweddaraf y staff

Y rhifynnau nesaf:

Rhifyn 22 Tachwedd 2009
Rhifyn 23 Ionawr 2010

Mae'r rhifyn cyfredol a rhifynnau blaenorol ar gael ar wefan CCC:
www.forestry.gov.uk/wales

Diweddariad am Gyllid CGG 2009/10

Rwy'n falch o allu eich hysbysu bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gallu ailagor CGG ar gyfer grantiau i'w talu yn 2009/10. Mae hyn ar gyfer pob mathau o grant; fodd bynnag, rhaid eich bod yn gallu cyflawni'r gwaith a hawlio'r grant erbyn 28 Chwefror 2010.

Diolch i bawb sydd wedi gweithio gyda ni i ail-drefnu gweithrediadau nad ydynt yn gallu'u cyflawni eleni. Rydym yn gwerthfawrogi bod y dirwasgiad wedi cael effaith ar weithrediadau a gynlluniwyd, rydym wedi bod yn gwrando ar eich pryderon ac yn awyddus i barhau i weithio gyda chi i ddod â choetiroedd dan reolaeth ac i greu coetiroedd newydd.

Sylwch fod y terfyn amser ar gyfer newid blynyddoedd hawlio i symud gwaith ymlaen o 2009/10 yn aros yr un fath - 31 Hydref 2009 ar gyfer Grantiau Gwella Coetiroedd a 31 Rhagfyr 2009 ar gyfer plannu newydd ac ailstocio.

Yn ogystal â cheisiadau CGG newydd, gallwch hefyd symud gweithrediadau a gymeradwywyd ymlaen i 2009/10 os gallwch gyflawni'r gwaith yn y flwyddyn hawlio hon. Mae hyn yn golygu nad oes angen i chi ddefnyddio'r rhestr wrth gefn mwyach; fodd bynnag, y terfyn amser ar gyfer hyn yw 31 Rhagfyr 2009.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cynlluniau Coedwig Hirdymor – ychwanegiadau ailstocio trosiannol

Byddwch yn ymwybodol bod yr ychwanegiad trosiannol ar gyfer ailstocio ar Gynlluniau Coedwig Hirdymor wedi cau ar ddiwedd mis Mawrth 2009. Bydd unrhyw hawliau ailstocio a gyflwynir o hyn ymlaen yn cael eu talu ar gyfradd ailstocio safonol Cynllun Grantiau Coetir (CGC). Dylai perchnogion sy'n dymuno manteisio ar y cyfraddau ailstocio uwch sydd ar gael nawr ddod â'u heiddo dan gynllun CGG.

Cyfrifwr costau Grantiau Gwella Coetiroedd a newidiadau i'r wefan

Mae fersiwn newydd o "Sut i ddefnyddio cyfrifwr costau GGC" ar gael yn llyfrgell gyfeirio CGG. Fe sylwch ein bod wedi newid fformat y ddogfen. Byddwn yn newid strwythur canllawiau defnyddwyr i ffurf llawlyfr, wedi'i osod mewn trefn amser, o'r cais cychwynnol drwodd at y cam cymeradwyo a cheisiadau. Cadwch lygad ar wefan CGG am newidiadau pellach.

Nodyn atgoffa gan ein tîm Gwasanaethau Technegol

Pan fydd nodyn gwybodaeth GLOS wedi'i ryddhau, byddwch gystal â threulio ychydig funudau yn ei ddarllen, cyn ffonio neu anfon e-bost at y tîm Gwasanaethau Technegol yng Nghlawdd Newydd. Maent yn barod i helpu bob amser, ond ar ôl i nodyn gwybodaeth gael ei ryddhau, maent yn arbennig o brysur yn canolbwyntio ar roi'r system ar waith i chi ei defnyddio.

Blwch post CADW

Defnyddiwch flwch post canolog CADW pan fyddwch yn cysylltu gyntaf ynglŷn ag achos CGG Cadw@wales.gsi.gov.uk

Grantiau Gwella Coetiroedd ar gyfer 'Coetiroedd ar gyfer Dysgu'

Dros y 10 mlynedd diwethaf mae'r diddordeb mewn dysgu mewn coetiroedd wedi cynyddu. Mae cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru, sef cwricwlwm arloesol i blant 3 i 7 oed sy'n pennu gofyniad am fynediad cyfartal i amgylcheddau dan do ac awyr agored a symudiad tuag at sgiliau ymarferol i bob oed, wedi golygu bod mwy o bobl yn chwilio am amgylcheddau cadarn, ysgogol i ddysgu ynddynt ac i ddysgu amdanynt. A pha le gwell na choetir yng Nghymru?

Gellir defnyddio coetir mewn amrywiaeth o ffyrdd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, fel lleoliad ac fel adnodd. Ymweliadau dydd unigol, gwirfoddoli, chwarae naturiol, Ysgol Goedwig - rhaglen o ymweliadau gan yr un grŵp dan arweiniad ymarferydd cymwys Ysgol Goedwig, cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol, cyrsiau achrededig, llwybrau a theithiau cerdded tywysedig. Gall y cyfan ddigwydd mewn amgylchedd sy'n newid o hyd.

Mae strategaeth newydd Coetiroedd Cymru yn cynnwys tair elfen allweddol:

- Darparu mynediad i goetiroedd a reolir yn dda ar draws Cymru, sy'n lleoliadau addas i gefnogi addysgu, cyflwyno dysgu a sgiliau a datblygiad
- Bod mwy o bobl yn mwynhau buddion dysgu gydol oes coetiroedd a'u cynhyrchion
- Hwyluso gweithlu ffyniannus a medrus yn y sector coedwigaeth a choetiroedd

Ar hyn o bryd mae CGG yn cynnig cyfleoedd ariannu penodol trwy GGC (Grantiau Gwella Coetiroedd). Mae dau goetir sy'n cael eu defnyddio ar gyfer Ysgolion Coedwig wedi llwyddo i gael cynlluniau CGG wedi'u cymeradwyo yn ddiweddar. Gall coedwigoedd sydd i'w defnyddio ar gyfer dysgu rheolaidd elwa o gymorth gyda chostau ychwanegol, fel cyfarpar dechreuol.

Os teimlwch fod gennych berchnogion coetir y byddai diddordeb ganddynt i ddarparu safle ar gyfer dysgu coetir, ac yr hoffent wybod mwy, cysylltwch â Sue Williams, Arweinydd Tîm, Tîm Coetiroedd ar gyfer Dysgu CCC ar 0845 604 0845.

Ffermwr mewn llecyn hardd yw'r cyntaf i dderbyn grant coetir newydd

*** Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn Sioe Frenhinol Cymru ***

Perchennog fferm yn un o ardaloedd harddaf Cymru oedd y cyntaf i dderbyn grant gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru gyda'r nod o ddod â 12,000 hectar o goetir preifat dan reolaeth coetir cynaliadwy dros y tair blynedd nesaf.

Fe wnaeth Colin Owen, perchennog Fferm Fairbirch yn ne Cymru, lofnodi ar gyfer grant Coedwigoedd Bach Coetiroedd Gwell i Gymru sy'n targedu'r math o goetiroedd sydd ar 90 y cant o ffermydd Cymru.

Mae fferm Colin yn swatio yn Three Crosses, ger Abertawe, yn ardal o harddwch naturiol eithriadol Gŵyr, tirwedd eiconig sy'n denu miliynau o dwristiaid i Gymru.

Mae'r coed ar y fferm gyda'i gilydd yn ffurfio un o'r blociau mwyaf o goetir yng ngogledd penrhyn Gŵyr, ac o'r herwydd mae'r tir yn gynefin pwysig i fywyd gwyllt yn ogystal ag yn fagnet i ddenu ymwelwyr i'r ardal.

Ers prynu'r fferm 25 mlynedd yn ôl, mae Colin wedi bod yn cydbwyso'r ystyriaethau hyn yn gyson tra'n hybu gwerth ei goedwigoedd i'r eithaf, gan greu amrywiaeth o gynhyrchion o estyll lloriau moethus i greonau siarcol ar gyfer pensiliau artistiaid.

Nawr, mae'n edrych ymlaen at ddatblygu'i goetir – a ddisgrifia fel ymrwymiad "o'r crud i'r bedd" – gan mai ef yw'r ffermwr cyntaf i dderbyn grant Coedwigoedd Bach.

Mae'r grant newydd yn gangen symlach o becyn CGG Comisiwn Coedwigaeth Cymru, ac fe'i cynlluniwyd gan feddwl am ffermwyr yn bennaf: mae dros 33,000 hectar o goetiroedd fferm yng Nghymru yn cymhwyso am grant Coedwigoedd Bach.

Gobeithir mai Colin fydd y cyntaf o lawer o ffermwyr yng Nghymru i fanteisio ar y grant, sy'n cynnig hyd at 75 y cant o gost rheoli unrhyw goetir sydd yn fwy na 0.25 hectar ac yn llai nag 20 hectar. Dywedodd Richard Siddons, pennaeth grantiau a rheoliadau yng Nghomisiwn Coedwigaeth Cymru, "Mae gan goedwigoedd bach Cymru ran hollbwysig i'w chwarae i greu mwy o orchudd coetir a dod â mwy o goetiroedd dan reolaeth gynaliadwy er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Ein nod yw creu 1,500 hectar yn ychwanegol o blannu newydd erbyn 2012."

"Mae llawer o'r coedwigoedd hyn ar ffermydd yng Nghymru, ac rydym eisiau annog ffermwyr a pherchnogion llai i reoli'u coetiroedd yn gynaliadwy ac mewn ffordd sy'n datgloi potensial economaidd y coetiroedd hyn."

Mae'r coetir hynafol 15-hectar ar Fferm Fairbirch wedi'i chynnwys ar y Stocrestr Coetiroedd Hynafol, sy'n golygu ei fod fwy na thebyg wedi bod yn goedwig yn barhaus er 1600 o leiaf.

Fodd bynnag, er diwedd yr Ail Ryfel Byd, roedd y coedwigoedd wedi'u hesgeuluso i raddau helaeth, fel llawer o goetiroedd ffermydd bach. Ond dros y 10 mlynedd diwethaf mae Colin wedi dechrau rheoli'r tir yn araf deg, trwy fondocio, teneuo coed a gosod traciau i ganiatáu mynediad i weithio'r coed. Mae wedi adeiladu busnes yn gwneud estyll lloriau, ond mae'n bwriadu defnyddio mwy o'i goed ei hun, yn hytrach na phrynu'r pren i mewn.

Bydd Colin hefyd yn gosod traciau newydd i alluogi peiriannau i fynd â choed sydd wedi'u cwympo allan, a bydd bondocio coed cyll a chelyn trwchus yn caniatáu mwy o olau i gyrraedd llawr y goedwig, gan roi digon o olau i hadau sy'n disgyn o goed llawn-dwf i dyfu, ac annog y nifer o blanhigion coetir blodeuol.

Nid oes dim yn mynd yn wastraff o'r coed sy'n cael eu cwympo. Mae'n defnyddio'r gwastraff i gynhyrchu creonau siarcol ar gyfer pensiliau artistiaid yn ei ddau losgwr siarcol, gan ddefnyddio deunydd nad ystyriwyd bod unrhyw werth masnachol iddo'n flaenorol.

Mae deunydd addas arall sydd dros ben yn cael ei ddefnyddio i wneud darnau o ddodrefn hynod ac anghyffredin.

Manylion cyfrif banc

Wrth gofnodi rhifau cyfrif banc i'r sgrin manylion y talai, peidiwch â gadael unrhyw fylchau rhwng y rhifau.

Ceisiadau am reoli gwiwerod

Mae grant ar gyfer rheoli gwiwerod at ddibenion diogelu cnydau o fewn CGG yn dibynnu ar y perchennog neu'r asiant yn cynnal arolygon o lefelau difrod gwiwerod trwy fonitro man penodedig yn flynyddol. Mae'n syniad da i wneud y monitro hwn yn rhan o adran gweithrediadau eich cynllun rheoli CGG.

Dylid archwilio nifer o goed wedi'u marcio am ddifrod rhwng mis Medi a mis Hydref bob blwyddyn, a rhaid cyflwyno adroddiad ar nifer y coed sydd â difrod ffres, yn ôl llain, yn flynyddol i ni. Byddai o gymorth pe bai modd i'r adroddiad fod ar ffurf MS Word neu pdf gyda ffotograffau. Lle nodir trapio, rhaid cofnodi nifer y gwiwerod sydd wedi'u dal mewn trap. Dylid llwytho'r wybodaeth hon i fyny i'r achos gan yr ymgeisydd neu'r asiant neu gennym ni ar ran yr ymgeisydd.
http://www.forestry.gov.uk/pdf/BR13WIG_Business_Rules20090625v1.1.pdf/$FILE/BR13WIG_Business_Rules20090625v1.1.pdf

Ar ddiwedd blwyddyn dau, rhaid dangos bod difrod gwiwerod yn lleihau neu gellir tynnu cyllid yn ôl.

I gael mwy o fanylion am reoli gwiwerod, gweler dogfen BR13 Rheolau Busnes yn ein llyfrgell gyfeirio CGG http://www.forestry.gov.uk/forestry/INFD-6YMLSQ

Dilysu cyfeirnod cwsmer i ffermwyr

Wrth ddatblygu cais CGG newydd ar gyfer ffermwr sydd â rhif cyfeirnod cwsmer yn barod, dylech hysbysu LICC cyn gynted ag y bo modd bod angen cofrestru 'CRN AXXXXXXX fel cwsmer coedwigaeth am ei fod yn bwriadu gwneud cais am CGG. Mae manylion pellach ynglŷn ag â phwy i gysylltu yn GOH13 CRN and Land Registration guidance yn llyfrgell gyfeirio CGG.
http://www.forestry.gov.uk/pdf/GOH13_BWW_and_WAG200900702v1.1.pdf/$FILE/GOH13_BWW_and_WAG200900702v1.1.pdf

Newyddion diweddaraf y staff

Nick Fackrell yw ein Swyddog Coetir newydd ar gyfer Aberhonddu ac ardal Sir Fynwy, ac mae'n cymryd lle Andy J Wright. Mae Nick wedi symud o Gyngor Sir Gwlad yr Haf lle gweithiai fel swyddog Coetiroedd a Choed. Bydd yn ysgwyddo gwaith achos CGG yn raddol.

Rydym hefyd yn croesawu Kay Williams i'r tîm Grantiau a Rheoliadau fel Swyddog Datblygu Busnes a Chymorth Rheoleiddio. Asiant Tir Cynorthwyol yng Nghoed y Cymoedd oedd rôl flaenorol Kay gyda'r Comisiwn Coedwigaeth.

Manylion cysylltu...

Ymholiadau CGG cyffredinol: Ffoniwch 0845 604 0845 neu ewch i: www.forestry.gov.uk/cymru
Ymholiadau technegol: E-bostiwch bww.ts@forestry.gsi.gov.uk
Gwasanaeth GLOS: Cyswllt www.eforestry.gov.uk
ac amawgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol: E-bostiwch alison.evans@forestry.gsi.gov.uk